

CHAPPELL, EDGAR LEYSHON (1879 - 1949), arbenigwr mewn cwestiynau cymdeithasol, arloesydd ad-drefnu pentrefi a threfi, ac awdur

Enw: Edgar Leyshon Chappell

Dyddiad geni: 1879

Dyddiad marw: 1949

Priod: Alice Chappell (née Thomas)

Rhiant: Ellen Chappell (née Watkins)

Rhiant: Alfred Chappell

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: arbenigwr mewn cwestiynau cymdeithasol, arloesydd ad-drefnu pentrefi a threfi, ac awdur

Maes gweithgaredd: Peirianeg, Adelladu, Pensaerniaeth Forwrol ac Arolygu Tir; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil

Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd 8 Ebrill 1879, yn Ystalyfera, mab Alfred Chappell ac Ellen Watkins. Cafodd ei addysg yng ngholeg y Brifysgol, Caerdydd, a bu am gyfnod yn brifathro ysgol Rhiw-fawr, Pontardawe. Cyhoeddwyd pamffledyn o'i waith - *Gwalia's Homes* - yn Ystalyfera yn 1911. Yn 1912 dechreuodd gynorthwyo'r Athro H. Stanley Jevons mewn gwaith ymchwil i faterion economaidd (gan mwyaf) - gwaith a olygai drafaelio a darlithio yn ne Cymru, ac ysgrifennu pamffledi ac erthyglau i'r wasg ar bynciau megis datblygiad pentrefi a threfi, gerddi, etc. Yn 1917 fe'i dewiswyd yn ysgrifennydd adran Gymreig comisiwn y Cabinet Rhyfel ar yr anesmwythder yn y byd diwydiannol; y flwyddyn ddilynol cafodd ei ddewis gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth i chwilio i mewn i gwestiwn cyflogau a thelerau gwaith gweithwyr ar y tir yn Ne Cymru. O 1918 hyd 1921 yr oedd yn arlygwyr yn adran tai o dan y Weinyddiaeth Iechyd; yn 1921 fe'i gwnaethpwyd yn ysgrifennydd ymchwil daleithiol arbennig yn Ne Cymru a wneid gan yr un Weinyddiaeth.

Wedi iddo adael y Weinyddiaeth Iechyd bu Chappell yn ffurfio ac yn arolygu cwmnïau ynglyn â datblygu tir, etc., yn Llundain a Chaerdydd - gweler rhestr o'r cwmnïau hyn yn *Who's Who in Wales*, 1937. Efe oedd un o sylfaenwyr (ac, am rai blynyddoedd, ysgrifennydd) y ' Welsh Housing and Development Association '; golygodd gyfrolau 1916, 1917, a 1918 *The Welsh Housing and Development Year Book*. Yn ddiweddarach bu'n ddiwyd yn ei waith ar wahanol gynghorau - cyngor sir Morgannwg yn eu plith - a'u pwyllgorau. Fe'i dewiswyd gan y Cyngor Cyfrin yn un o'i gynrychiolwyr ar Lys Llywodraethwyr Llyfrgell Genedlaethol Cymru; cafodd radd M.A. ('er anrhydedd') gan Brifysgol Cymru yn 1948. Ar hyd y blynyddoedd bu'n ysgrifennu ysgrifau, pamffledi, a llyfrau mwy; bu hefyd am gyfnod yn golygu'r *Welsh Outlook*. Dyma deitlau rhai o'i weithiau - *Pithead and Factory Baths* (gyda J. A. Lovat-Fraser), 1920; *The Housing Problem in Wales*, 1920; *History of the Port of Cardiff*, 1939; *Historic Melingriffith*, 1940; *The Government of Wales*, 1943; *Wake up, Wales ...* 1943; *Cardiff's Civic Centre, a Historical Guide*, 1946.

Priododd Alice, merch Caleb Thomas, Ystalyfera, a bu iddynt fab. Bu farw yng Nghaerdydd 26 Awst 1949.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Who's who in Wales, 1937

Western Mail, 27 Awst 1949

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Edgar Chappell

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 51595892

Wikidata: Q20252475

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawffraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfeyrdiaid Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Preifatrwydd a Chwciis
Hawffraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ddiolch i
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government